



CWTSH MYRDDIN

Rhifyn – 02.12.2015

Ymweliad Iola Wyn

Fore Mercher, Tachwedd 18 bu dosbarth 8-3 yn ffodus iawn o'r cyfle i groesawu Mrs Iola Wyn mewn i'w gwerns ABCh. Thema'r wers oedd Cymreictod. Cawsom sgwrs a thrafodaeth ddiddorol am y defnydd o'r iaith Gymraeg, Cymreictod a beth mae'n golygu i fod yn Gymro neu Gymraes. Roedd Iola Wyn yn sgwrsio am bwysigrwydd siarad yr iaith Gymraeg ac yn ein hatgoffa o'i defnyddio mor aml â phosib. Enghreifftiau o hyn yw yn ein bywydau pob dydd, pam rydym yn siopa, talu am nwyddau, parcio a chael arian o'r twll yn wal. Mae'n bwysig ein bod yn dewis yr opsiwn Cymraeg gymaint â phosib. Roedd Iola Wyn hefyd yn sôn am y Ganolfan newydd Gymraeg - yr Atom sydd newydd agor yng Nghaerfyrddin yn ddiweddar ac yn esbonio'r gwahanol weithgareddau mae'r ganolfan yn ei gynnig i bob oedran i gymdeithasu yn yr iaith Gymraeg. Mae'r dosbarth hefyd yn ffodus iawn o gael cyfle i ymweld ar Atom yn ystod ei gwerns ABCh nesaf yn Mis Rhagfyr. Edrychwn ymlaen at glywed yr hanes. Carem i gyd ddiolch yn fawr iawn i Iola Wyn am ei sgwrs ddiddorol ac am ei hamser i ymweld â'r dosbarth.

Adroddiad gan ddosbarth 8-3

Tîm sgîo - 6ed ym Mhrydain

Llongyfarchiadau mawr i Huw Butterworth, Tom Butterworth, Aidan Jones ac Owen Llewellyn-Jones - am y tro cyntaf mewn hanes mae tîm bechgyn Ysgol Bro Myrddin yn bencampwyr Cymru ac yn 6ed ym Mhrydain. Camp arbennig iawn!



Pencampwyr Cymru rhedeg Trawsgwlad

Llongyfarchiadau i'r canlynol ar ddod yn bencampwyr Cymru rhedeg trawsgwlad bechgyn o dan 13eg oed - Bedwyr Thomas, Liam Edwards, Joseff Rhys-Elis ac Iwan Glynn. Yn nhîm y merched roedd Maddie Morgan a Daisy Thompson. Da iawn bawb.



Canlyniadau Chwaraeon

Rygbi

Tachwedd 17

Rygbi Tîm cyntaf yn colli yn erbyn Dyffryn Aman 17-20

Tachwedd 26

Rygbi Tîm cyntaf Bro Myrddin yn colli yn erbyn Ysgol Y Strade 12 - 35

Pêl rwyd yr Urdd bl 9 a 10

Tachwedd 19

Bro Myrddin 2 v Bishop gore 6

Bro Myrddin 14 v Maesteg 1

Bro Myrddin 4 v Bryntirion 7

Bro Myrddin 2 v Glantaf 8

Bro Myrddin 14 v Treorci 0